

CYLCHGRAWN AR GYFER FFERMIO A CHOEDWIGAETH YNG NGHYMRU

cyswllt FFERMIO



FARMING
connect
cyswllt
FFERMIO

08456 000 813

Cydemseru Heffrod

Cynyddu potensial genetig
a ffrwythlondeb.

Dyfodol Ffermio

Technoleg newydd all newid
y ffordd rydym yn ffermio.





ANDREW REES, Moor Farm,
Walwyns Castle, Hwlfordd

Ffermwyr llaeth ydyn ni ger Hwlfordd yn Sir Benfro, gan gadw 230 o fuchod Friesian ar system loea mewn bloc yn y gwanwyn, gan anelu at gynhyrchu 500kg o solidau llaeth i bob buwch, ar tua 1000kg o ddwysfwyd.

Yn ystod y misoedd diwethaf rydym wedi bod yn brysur iawn, rydym wedi symud tŷ, rydym yn brysur yn parhau i ganolbwyntio ar reoli pori yn ofalus a'r cynhaeaf silwair ac rydym hefyd yng nghanol camau ymgeisio olaf y 'Grant Cynhyrchu Cynaliadwy' y byddwn yn ei ddefnyddio i adeiladu cyfleusterau godro newydd, cynyddu'r siediau i fuchod a thrawsnewid ein dull o drin slyri. Rydym hefyd wedi gwella'r seilwaith pori gan ystyried cyngor gan Bertie Troy o Grasstec (Iwerddon) ac rydym wedi defnyddio tapiau pelen llif cyflym yn ein cafnau dŵr newydd. Yn y tywydd poeth yn ddiweddar rydym wedi gweld y gwahaniaeth o ran y dŵr sydd ar gael ar y rhannau o'r fferm ar yr hen system a'r rhai ar y system newydd ac rydym yn falch ein bod wedi penderfynu buddsoddi fel y gwnaethom.

Un o'n targedau a osodwyd ddwy flynedd yn ôl oedd cwblhau olyniaeth y busnes a datblygu systemau effeithlon o ran amser i weithio tuag at well cydbwysedd gwaith/bywyd cyn pen pum mlynedd. Ar ôl symud tŷ yn ddiweddar rydym gam yn nes at gyflawni'r nod hwnnw, ond er bod gennym brosiectau adeiladu ar y gweill gallwn ragweld oedi hir o'n blaenau.

Gellir dilyn tyfiant y glaswellt trwy Brosiect Porfa Cymru ar wefan Cyswllt Ffermio ond rydym yn falch o gofnodi ei fod wedi bod yn

dymor eithriadol. Trowyd y gwartheg allan ar 15 Mawrth, bron i 3 wythnos yn hwyrach nag yn 2016. Roedd y gorchudd ar y fferm ar gyfartaledd ar y pryd tua 2800kg DM/ha llawer mwy na'r un amser yn nhymor 2016 (1880kg DM/ha). Oherwydd effaith troi allan yn hwyr, mwy o dyfiant nag arfer dros y gaeaf ac amodau pori anodd, ni wnaethom gychwyn yr ail rownd hyd 21 Ebrill. Cafodd hyn effaith ar gynhyrchiant gan fod ansawdd y glaswellt wedi gostwng i 10.8ME a 22% protein gyda gorchudd trwm mewn cymhariaeth â 12.8ME a 26% protein yn yr ail rownd y llynedd.

Ar ôl torri silwair a thopio y rhan fwyaf o'r rownd yn ystod Mehefin mae gennym ail dyfiant o ansawdd da i gynnal y cynhyrchiant llaeth gobeithio trwy weddill yr haf. Mae'r arwyddion cynnar yn awgrymu bod y bridio wedi mynd yn dda gyda 210 o anifeiliaid allan o 300 a barwyd wedi eu sganio i loea yn y 4 wythnos gyntaf Chwefror nesaf.

Rydym wedi croesawu nifer o grwpiau i'r fferm yn ddiweddar, gan gynnwys grŵp trafod bach yn canolbwyntio ar seilwaith pori a digwyddiad Merched yn y Diwydiant Llaeth yn astudio protocolau magu stoc ifanc a dangosyddion perfformiad allweddol. Bydd gwaith prosiect Cyswllt Ffermio dros y misoedd nesaf yn canolbwyntio ar adeiladu ar yr hyn sydd gennym yn barod o ran cynhyrchu glaswellt ar gost isel – byddem yn hoffi edrych yn fwy manwl ar reolaeth pridd yn gynaliadwy a'r posibilrwydd o leihau'r defnydd o wrtaith heb golli tyfiant.

Effeithlonrwydd porthiant a dyfodol ffermio defaid

Dros yr 50 mlynedd diwethaf aeth cryn ymdrech i'r broses o wella lefelau cynhyrchiant y ddiadell genedlaethol yng Nghymru. Ond ychydig o waith a wnaed i astudio'r gwahaniaethau rhwng unigolion o ran eu lefelau o fwyta porthiant a'r berthynas â pherfformiad yr anifail. Y rheswm am hyn yw bod effeithlonrwydd porthiant yn nodwedd gymhleth ac yn un anodd ei mesur.

Mae deall faint y mae anifeiliaid yn ei fwyta wrth iddynt bori hyd yn oed yn fwy anodd ac nid yw strategaethau porthi manwl wedi cael eu harchwilio lawer mewn diadelloedd pori. Cyfyngedig, felly, fu'r ymdrechion i fesur effeithlonrwydd wrth drosi porthiant mewn defaid gan fod mesur y porthiant a gymerir yn ddrud ac yn cymryd llawer o amser. Mae hyn ar fin newid diolch i waith ymchwil sy'n cael ei wneud yn IBERS, Prifysgol Aberystwyth.

Mae prosiect yno, a ariannwyd yn rhannol gan Cyswllt Ffermio, yn edrych ar dechnegau newydd o fesur y porthiant y mae defaid yn ei gymryd. Nod y prosiect yw gallu datblygu dull mesur y gellir ei ddefnyddio ar gyfer nifer fawr o anifeiliaid ar laswellt. Dynodwyd nifer o ddulliau mesur cysylltiedig gyda'r nod o fedru eu defnyddio ar laswellt ac ar gostau digon isel fel eu bod yn gallu cael eu defnyddio mewn rhaglenni magu defaid masnachol. Yn ychwanegol, bydd y technolegau a ddatblygir yn gallu helpu i ddeall effeithlonrwydd cymharol y defnydd o borthiant ar wahanol fathau o borfa a phorthiant.

- Y ffordd orau o ddiffinio effeithlonrwydd porthiant yw sicrhau'r cynhyrchiant mwyaf (cig, llaeth, gwllân) gan gadw'r lefel o borthiant sy'n angenrheidiol i'w gyflawni cyn lleied â phosibl. Mae anifeiliaid o'r fath yn debygol o fod â gwell gallu treulio ac yn gallu defnyddio rhagor o ynni o borthiant yn hytrach na'i golli trwy ysgarthion
- Bydd dethol ar sail hynny yn arwain at gynnal lefel cynhyrchu uchel o lai o borthiant, ac allyrru llai o gynnyrch gwastraff, gan leihau effaith amgylcheddol cynhyrchion gan gilgnowyr.

<https://businesswales.gov.wales/farmingconnect/cyl/posts/effeithlonrwydd-porthiant-mewn-anifeiliaid-cnoi-cil-ffeithiau-ar-gynhyrchiant-a%E2%80%99r-amgylchedd>



DEWIS HWRDD – dyfodol y ddiadell

Gyda'r prif dymor prynu hyrddod yn agosáu yn gyflym bydd y meddwl yn troi at sut y bydd prynu anifeiliaid newydd yn cyd-fynd â phroffidioldeb y busnes defaid a'i wella. Gan fod hyrddod yn chwarae rôl hanfodol yn y modd y mae'r ddiadell yn cyflawni gydag un hwrdd yn cenhedlu dros 500 o ŵyn yn rhwydd yn ystod ei oes, dyma un o'r penderfyniadau pwysicaf yn y flwyddyn.

Rhaid i'r penderfyniad wrth brynu hwrdd felly ystyried nifer o feini prawf gan gynnwys a yw'r hwrdd yn gallu cael nifer sylweddol o famogiaid yn gyfeb. Bydd hyn yn dibynnu ar ffrwythlondeb a ffitrwydd. Mae nifer o ffactorau yn dylanwadu ar ffrwythlondeb ac mae'r ffordd orau o sicrhau'r tebygolrwydd mwyaf y bydd yr hyrddod yn llwyddiannus yn dibynnu ar eu rheolaeth. Cynnwys hyn y cyfnod cyn eu prynu ac mae'n parhau trwy gydol eu hamser ar y fferm. Dylai hyrddod felly gyflawni'r meini prawf canlynol wrth eu prynu:

- Dim cloffni na briwiau ar eu brest
- Mewn cyflwr da (sgôr cyflwr 3.5 i 4) ond ddim yn dew
- Ddim yn ddibynnol ar lawer iawn o ddwysfwyd
- Wedi cael archwiliad corfforol gan filfeddyg i sicrhau bod y ceilliau o'r maint gorau ac nad oes difrod i'r organau atgenhedlu
- Heb gnu rhy drwchus, mae hyn fwyaf perthnasol i hyrddod a ddefnyddir ym mis Awst a Medi a allai ddioddef o straen gwres

Mae defnyddio hyrddod gyda mesuriadau gwrthrychol ar eu perfformiad fel gwerthoedd bridio tybiedig yn adnodd heb ei ddefnyddio yn llawn i wella proffidioldeb

diadelloedd ar lawer o ffermydd ac yn ogystal â nodweddion defnyddiol, dylai hyrddod gael eu dewis gan ystyried unrhyw wybodaeth sydd ar gael.

Cyn cyflwyno unrhyw stoc i'r fferm, rhaid bod yn ofalus na fydd unrhyw afiechydon newydd yn dod i'r ddiadell yr un pryd. Gall nifer o broblemau bioddiogelwch gael eu hatal trwy weithdrefnau cwarantyn syml gan gynnwys arwahanu a thriniaethau rhagweithiol: gall llyngyr â gwrthedd, clwy'r traed, dermatitis digidol heintus defaid, clafr a llyngyr yr lau gael eu cyflwyno i ddiadell trwy brynu un hwrdd. Ni all afiechydon eraill fel Maedi Visna (MV) neu Caseous Lymphadenitis (CLA) gael eu hatal trwy driniaeth ond gallwch brofi amdanynt ac mae cynlluniau achredu mewn rhai achosion. Daeth yr angen am fiaddiogelwch yn gynyddol bwysig a dylid ceisio'r argymhellion mwyaf addas ar gyfer diadell unigol trwy gyngor gan filfeddyg.



Dyma'r amser hefyd i sicrhau bod yr hyrddod sydd ar y fferm eisoes yn ffit ar gyfer y tymor i ddod. Mae 'MOT hwrdd' yn cynnwys archwiliad corfforol o'r organau atgenhedlu ac mae'n well i hynny gael ei wneud gan filfeddyg gyda pheth profiad, gall hyrddod gael eu harchwilio heb gefnogaeth o'r tu allan. Mae cyngor milfeddygol hefyd yn hanfodol ar yr amser yma o'r flwyddyn i sicrhau na fydd hyrddod sydd wedi eu prynu o'r newydd yn cyflwyno unrhyw afiechydon i'r ddiadell.

CYD-AMSERU HEFFROD - cynyddu potensial genynnol a ffrwythlondeb

Gan fod ffrwythlondeb a chynnydd genynnol yn yrwyr allweddol i broffidioldeb wrth gynhyrchu gwartheg magu, mae'r cyfnod paru yn amser i ystyried pa newidiadau y gellid eu gwneud i ymdrin â'r gyrwyr allweddol yma. Mae hyn wedi bod yn wir ar ein safle ffocws Fferam Gyd, Llanbabo, lle mae'r ffermwyr Mr Llyr Hughes wedi gweithredu rhaglen gyd-amseru oestrws ar gyfran o'i fuchod magu masnachol.

Cyflwynwyd cyfanswm o 55 o fuchod magu o oedran cymysg i'r rhaglen gyd-amseru a rhoddwyd tarw potel iddynt o darw Limousin gyda geneteg o safon uchel. Rhoddwyd tarw stoc y fferm i 30 arall o fuchod magu fel grŵp rheoli. Ar ddechrau'r rhaglen, pwyswyd y gwartheg a rhoi sgôr cyflwr iddynt i bennu a oedd pwysau byw a'u cyflwr yn cael effaith ar berfformiad y fuwch o ran ffrwythlondeb. Roedd cyfartaledd y pwysau byw yn 692kg ac roedd y sgoriau cyflwr ar gyfartaledd yn 2.8. Yna cadwyd at raglen gyd-amseru gaeth.

DYDDIAD	TRINIAETH	AMSER
Dydd Mercher 24 Mai	Mewnosod Cidr a 2.5ml o Veterelin	Unrhyw Amser
Dydd Mercher 31 Mai	Tynnu'r Cidr a chwistrellu 2ml o Prelim	6:00 YB
Dydd Gwener 2 Mehefin	Chwistrellu 2.5ml o Veterelin (at time of 1st AI)	YP
Dydd Gwener 2 Mehefin Dydd Sadwrn 3 Mehefin	Amser Penodedig TA Amser Penodedig TA	2:00 YP 12 - 2 YP
Dydd Llun 10 Gorffennaf	DB	(39-40 Yn dilyn ffrwythloniad)

Dangosodd canlyniadau diagnosis beichiogrwydd a gynhaliwyd 40 diwrnod ar ôl cael tarw bod cyfanswm o 42 o fuchod (76%) wedi cyfebu yn llwyddiannus sydd yn uwch na'r cyfartaledd ar gyfer y rhaglen gyd-amseru hon. O ganlyniad bydd y lloea yn digwydd mewn cyfnod byrrach ac yn arwain at grwpiau gwastad o lloea i'w gwerthu a fydd wedi cael 21 diwrnod yn fwy o dyfiant mewn cymhariaeth â'r lloea ar ôl ail ofyn.

Maes arall y mae Mr Hughes yn teimlo bod y rhaglen wedi bod o fudd iddo yw'r gostyngiad o ran llafur. Cymerodd gyfanswm o tua 12 awr i ddau aelod llawn amser o staff gwblhau'r rhaglen gyd-amseru. O gymharu hyn â gwyllo gwartheg am raglen tarw potel heb ei chyd-amseru am 90 munud y diwrnod am gyfnod o 8 wythnos sy'n gyfanswm o 84 awr, mae'n amlwg sut y gall rhaglen tarw potel ar amser sefydlog fod o fudd i ffermwyr sy'n brin o amser ac o weithwyr medrus efallai.



Amcangyfrifwyd bod cloffni yn costio mwy na £180 am bob achos, neu 1+ ceiniog y litr o golled o ran cynnyrch llaeth, costau trin a chyfradd waredu uwch, hefyd y mae lles yr anifeiliaid a morâl y staff i'w hystyried (AHDB Dairy, 2017). Gall cloffni hefyd wneud y buchod yn agored i broblemau iechyd eraill, yn enwedig problemau o ran ffrwythlondeb a phroblemau metabolig. Gall derbyn protocolau arfer gorau leihau cost gyffredinol cynhyrchu llaeth ac arbed straen ac amser yn ogystal ag arian i ffermwyr.

Ar hyn o bryd mae Prifysgol Aberystwyth yn treialu Systemau Lleoli Byd-eang (GPS) i ddadansoddi ymddygiad buchod i ganfod cloffni yn gynnar ac mae un o Safleoedd Arloesedd Cyswllt Ffermio, Trawscoed, yn defnyddio technoleg 'matrics camau' i fesur dosbarthiad pwysau (*grym a hyd*) pob carn yn ddyddiol, gan roi cyfle i ymyrryd yn gynnar pan fydd problemau yn digwydd.

AEr bod gan dechnoleg le mewn rhai systemau, mae dewisiadau rhatach ar gyfer ymdrin â chloffni ar gael i bob ffermwr. Dull sy'n cwmpasu'r fferm gyfan fydd yn cael yr effaith mwyaf - edrychwch ar yr amodau dan draed, amseroedd sefyll, protocolau trimio traed a gofal carnau ond yn bwysicaf oll ewch ati i ganfod a thrin achosion y problemau. Canolbwyntiwrch ar feysydd allweddol:


- Lleihau pwysau gan heintiadau
- Gwella siâp a chryfder y carn
- Lleihau grymoedd ar y carn
- Targedwch brotocolau gofal traed yn ôl sefyllfa eich fferm

Bydd Neil Chesterton, arbenigwr milfeddygol o Seland Newydd yn trafod egwyddorion '**Rhaglen Traed Iach**' AHDB Dairy yn ystod digwyddiad agored ar 25 Awst 2017 ar Fferm Nantybach, Llangrannog, Ceredigion (10.30am – 2.30pm). Dywed Richard Davies o AHDB, "Mae Neil yn credu mai un o'r ffactorau allweddol yn y frwydr yn erbyn cloffni yw lleihau grymoedd ar y traed, ac mae hyn yn cynnwys agweddau fel esmwythyd y fuwch a llif. Rhaid i ni ystyried sut y mae cerdded ar lwybrau gwartheg a thrin yn y parlwr godro ac o'i gwmpas a'r adeiladau i gyd yn cyfrannu. Y newyddion da yw bod ffyrdd ymarferol o leihau'r niwed i'r traed."

Diweddariad prosiect porfa Cymru 2017

Yn dilyn tymor gwanwyn ffafriol o ran twf glaswellt, mae'r tywydd sych anhymhorol ym mis Ebrill a Mai wedi gadael ambell ffermwr ar briddoedd ysgafnach gyda gorchudd glaswellt a chyfraddau twf is. Roedd hyn yn cael ei gymhlethu i nifer gan y toriad cyntaf o silwair, a oedd yn gadael y gorchudd cyfartalog ar nifer o ffermydd ar 1900-2000 KgDM/Ha. Fodd bynnag, roedd padogau trymach yn rhagori yn ystod y cyfnod gyda heulwen gynnes a lleithder wedi'i gadw yn y pridd yn arwain cyfraddau twf o dros 130 KgDM/Ha. Mae effaith y gwanwyn sych ar un fferm prosiect gyda phridd ysgafn i'w weld yma yn y graff lletem laswellt isod ar gyfer yr wythnos a fesurwyd ar yr 8fed o Fai. Mae hyn yn dangos bod padogau a borwyd yn dangos cyfraddau ail dwf arafach, sy'n golygu eu bod dan linell glas galw, a byddai hynny'n arwain at lawer o ffermydd gyda buchesi sy'n lloia yn y gwanwyn yn cynyddu faint o ddwysfwyd a roddir i'w gwartheg er mwyn lleihau eu galw dyddiol am laswellt.

Lletem laswellt ar gyfer fferm sy'n cymryd rhan ym mhrosiect porfa Cymru (8/5/17)



Byddai nifer o ffermydd eraill a oedd hefyd wedi cwblhau'r toriad silwair cyntaf yn ystod y cyfnod yn gweld aildyfiant adladd llawer arafach a'r padogau newydd i symud eu gwartheg iddynt yn diflannu'n eithaf sydyn. Fodd bynnag, fel sy'n digwydd bob amser yn ystod gwyliau'r ysgol, fe ddaeth y glaw yn y diwedd, ac mae'r lleithder angenrheidiol a ddaeth ddiwedd Mai a dechrau Mehefin wedi arwain cyfraddau twf yn ôl i'r 80au, 90au ac uwch o'i gymharu â'r 50au a'r 60au KgDM/ha/dydd yn ystod y cyfnod sych.

Un broblem gyda chyfnod o sychder hir gyda thipyn o law i ddilyn yw parodrwydd rhygwellt i fynd yn goesog a hadu ynghyd ag unrhyw rywogaethau glaswellt annymunol a chwyn a allai ddod ynghyd i ffurfio'r borfa. Mae rheoli'r borfa yn ofalus yn ystod y cyfnod hwn yn hanfodol ac mae'n bosibl y bydd angen i chi ddefnyddio strategaethau megis torri cyn pori neu lanhau porfeydd gan ddefnyddio stoc llai cynhyrchiol, neu drwy dopio fel dewis olaf. Bydd y mesurau hyn gobeithio yn galluogi aildyfiant ffres a deunydd mwy deiliog o ansawdd gwell ar gyfer y tro nesaf.

Gwella Rheolaeth ar Hesbinychod

Mae rheolaeth dda a dewis hesbinychod yn ofalus yn sylfaenol i gynnal cenfaint gynhyrchiol. Mae'n arbennig o bwysig sicrhau bod digon o hesbinychod ar gael i gael baedd ar yr amser iawn.

Dylid cyfnewid hychod hŷn, nad ydynt yn gynhyrchiol â hesbinychod. Profwyd, ar ôl i hwch gael perchyll y pumed tro bod ei chynhyrchiant yn gostwng gan arwain at weld llawer o systemau cynhyrchu yn cael gwared ar yr hychod i gyd ar ôl y pumed esgoriad.

Mae cyflwyno hesbinychod yn her i nifer o systemau cynhyrchu, ac mae'n creu risgiau o safbwynt cyflwyno afiechydon, iechyd y genfaint a sefydlogrwydd y genfaint. Felly, mae'n cael ei argymhell yn gryf, pan fydd yn ymarferol a phosibl i fagu hesbinychod cyfnewid ar yr uned foch bresennol.



Dylai hesbinychod gael eu dewis ar y sail eu bod yn well yn enynnol, yn gadarn o ran atgenhedlu ac yn gywir o ran eu cyrff. Dylai'r nifer o hesbinychod a ddewisir fod tua 1.25 gwaith y nifer o hesbinychod cyfnewid sy'n ofynnol. Dylid ystyried y genoteip cywir, y nifer o dethi (*anelwch am 12-14*) a nodweddion atgenhedlu'r hwch wrth ddewis hesbinychod cyfnewid. Mae'n bwysig asesu hesbinychod yn weledol yn gyson i bennu eu ffitrwydd o ran strwythur ac atgenhedlu.

Ar ôl dewis hesbinychod i'w cadw yn y genfaint, rhaid iddynt gael eu rheoli mewn modd na fydd yn cyfyngu ar eu potensial o ran cynhyrchiant. Mae'r porthiant a gymerir; cyfnod gyda'r baedd, pwysau corff wrth fridio, pwysau a enillir tra'n dorrog, a rheoli llaethiad cyntaf i gyd yn pennu potensial cynhyrchiant yr hwch. O ystyried mai hesbinychod cyfnewid yw dyfodol y genfaint foch dylent gael eu rheoli yn ofalus.

Os oes gennych ddiddordeb mewn dysgu am reoli hesbinychod dewch i'r digwyddiadau canlynol, lle bydd yr uwch ddarlithydd moch Alan Stewart o Brifysgol Harper Adams yn rhoi golwg fanwl ar reoli hesbinychod.

DYDDIAD	DIGWYDDIAD	LLEOLIAD	CYSWLLT
23/08/2017 19.00 – 21.00	Gwella Rheolaeth ar Hesbinychod	The Anglesey Arms, Ffordd Mona, Porthaethwy, LL59 5EA	I archebu lle cysylltwch â Jodie 07896 996 841
24/08/2017 19.00 – 21.00	Gwella Rheolaeth ar Hesbinychod	Gwesty'r Llwyn Iorwg, 11 Stryd Spilman, Caerfyrddin, SA32 1LG	jodie.roberts@menterabusnes.co.uk

Rhestr wirio ail hadu yn yr hydref

Mae ail hadu yn rhoi cyfle i chi wella eich gwndwn gyda mathau o blanhigion sy'n gweddu orau i'ch system, a gall wella cynhyrchiant y fferm gyfan a thrwy hynny ostwng costau cynhyrchu. Bydd tir wedi ei ail hadu yn ymateb yn well o 20-25% i nitrogen a byddai disgwyl iddo gynhyrchu 3-5 tonnell o gynnwys sych ychwanegol yn flynyddol gyda gwerth treuliadwy uwch (mewn cymhariaeth â phorfa barhaol). Gall hyn gynnal cyfraddau stocio uwch neu ofyn am lai o ddefnydd o wrtaith.

Wrth gynllunio i ail hadu, gwiriwch yn gyntaf a oes amnoch angen Asesiad Effaith Amgylcheddol – bydd hyn yn ofynnol os yw'r gwndwn yn cynnwys lai na 25% o rywogaethau tir amaethyddol wedi ei wella.

Ystyriwch brofi'r pridd ddigon ymlaen llaw i gael amser i wneud gwaith i'w adfer, ac os oes angen draenio dylid gwneud hyn yn gyntaf.

Anelwch at pH o 6.2-6.5 a chofiwch fod gofynion calch ar dir trwm gyda glawiad o fwy na 1.5m/y flwyddyn yn 2 dunnell/yr erw bob 5 mlynedd i gynnal yr amodau yn unig.

Mae gwndwn sydd heb sefydlu yn dda yn costio'r un faint ag un da, a fydd yn talu yn ôl mewn cyn lleied â 2 flynedd yn ôl Teagasc, ac mae'n debygol o bara yn hwy. Defnyddiwch y Rhestr Laswelt a Meillion a Argymhellir i ddewis mathau sy'n gweddu i'ch anghenion, ac ystyriwch gael cyngor arbenigol. Efallai y byddwch yn penderfynu y byddech yn hoffi cymysgedd arbennig yn hytrach na phrynu peth oddi ar y sillf, felly mae cynllunio ddigon ymlaen llaw yn fanteisiol.

Bydd yr egin yn cael eu herio gan rywogaethau heb eu hau ar unwaith, ac o'u sefydlu ymlaen bydd y ganran o rywogaethau wedi eu hau yn y gwndwn

yn dirywio yn raddol. Mae rheoli chwyn a phlâu yn allweddol, yn arbennig wrth ail hadu yn yr hydref gan fod llai o gyfle i ddefnyddio chwistrell wedi egino nag yn y gwanwyn ac mae'r tywydd gwlypach yn ddelfrydol i wllthod a'r cynrhonyn lledr. Beth bynnag yw'r dull o hau, rhaid i'r gwely fod yn fân, cadarn ac yn wastad yn ddelfrydol. Dylid rowlio'r gwely i sicrhau bod cyswllt da rhwng yr hadau a'r pridd.

Porwch cyn gynted ag y bydd cyflwr y tir yn caniatáu a'r egin wedi llwyddo yn y 'prawf tynnu' i sicrhau bod y planhigion wedi eu hangori'n dda gan y gwreiddiau. Bydd hyn yn annog cadeirio a datblygu gwndwn trwchus.

Ystyriwch -

- ✓ Asesiad effaith amgylcheddol
- ✓ Mynegai pridd a pH
- ✓ Draeniad
- ✓ Cymysgedd hadau
- ✓ Dull hau
- ✓ Paratoi'r gwely hadau a rowlio
- ✓ Rheoli chwyn a phla

Ymunwch â ni yr Hydref hwn ar Fferm Arddangos Tyreglwys, Llanelli, am ddiwrnod agored yng nghwmni Chris Duller, arbenigwr ail-hadu a draeniad.

Am ragor o wybodaeth ewch i -

<http://gov.wales/topics/planning/development/environmental-impact-assessment>. Neu cysylltwch â:

Jamie McCoy

symudol

07985 379819

ebost

jamie.mccoy@menterabusnes.co.uk



Dyfodol Ffermio

Yn yr erthygl hon bydd y Ganolfan Cyfnewid Gwybodaeth yn esbonio rhai meysydd ymchwil a all wneud gwahaniaeth i'r ffordd y byddwn yn ffermio yn y dyfodol. Bydd mabwysiadu technolegau newydd yn ein helpu i ddod yn fwy effeithlon a chynhyrchiol a nod y Ganolfan Cyfnewid Gwybodaeth yw helpu ffermwyr i ganfod pa dechnolegau ac arferion a all fod o gymorth. Gellir gweld rhagor o wybodaeth ac erthyglau ar yr ymchwil diweddaraf ar wefan Cyswllt Ffermio.

DA BYW AMGYLCHEDDOL DDOETH

Mae cynhyrchu bwyd, cynnyrch da byw yn arbennig, yn arwain at allyriadau sylweddol o ran nwyon tŷ gwydr. Disgwylir i'r galw am gig a chynnyrch anifeiliaid ddyblu erbyn 2050 o ganlyniad i gynnydd mewn poblogaeth yn fyd-eang a newid mewn patrymau bwyta tuag at gig, yn arbennig mewn gwledydd sy'n datblygu. Fel y cyfryw, mae'r angen i ddatblygu camau i leihau effaith amgylcheddol yr arferion amaethyddol presennol yn allweddol. Prosiect cydweithredol rhwng prifysgolion Bangor, Aberystwyth, Caerdydd a Nottingham yw'r prosiect 'Gwartheg Glanach' ynghyd â DairyCo a HPC Cymru, sy'n anelu at ymdrin â'r broblem hon trwy asesu cylchred bywyd a modelu economaidd ac amgylcheddol. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall effeithiau ehangach cynhyrchiant llaeth a biff a'r sgil effeithiau trwy'r newid mewn defnydd tir. Mae cynyddu effeithlonrwydd trwy leihau cynhyrchion niweidiol hefyd yn cynnig manteision o ran lleihau costau cynhyrchu, gan y gall osgoi colli cynnyrch gwerthfawr, fel nitrogen, gwella effeithlonrwydd busnes y fferm a thrwy hynny broffidioldeb.

LLYNGYR YR IAU

Mae heintiadau llyngyr yr iau a lefel y gwrthedd i gyffuriau sy'n datblygu ar draws ffermydd yn cynyddu - felly, mae angen gwell dulliau o reoli heintiadau o llyngyr yr iau. Mae ymchwil newydd cyffrous yn IBERS yn gweithio tuag at ddatblygu prawf diagnostig wrth y gorlan, a fydd, gobeithio, yn gwahaniaethu rhwng llyngyr yr iau a llyngyr y rwmen ac yn pennu gwrthedd neu wendid y parasit o ran y cyffur sy'n cael ei ddewis ar hyn o bryd, briclabendazole. Yn ogystal, mae IBERS yn ymchwilio i effeithiau gwrth barasitig trwyth planhigion, i edrych ar ddatblygu cemegolion newydd gan ddefnyddio adnoddau naturiol ar gyfer strategaethau rheoli heintiadau llyngyr yr iau yn y dyfodol.

Prosiect Innovate UK APPLE

"Gweithredu bridio planhigion a ffenodeipio i leihau gofynion maeth porthiant a gwella effeithlonrwydd wrth gynhyrchu da byw"

Bu prif bwyslais amaethyddiaeth glaswelltir ar gynyddu'r cynnyrch o gynnwys sych, ansawdd y porthiant a chynhyrchu anifeiliaid. Mae mwy o reoleiddio gan yr UE yn golygu bod sector glaswelltir y Deyrnas Unedig yn awr yn wynebu gorfod lleihau effaith amgylcheddol cynhyrchu a gwella cynhyrchiant ac effeithlonrwydd ar yr un pryd.

Mae ffermwyr da byw yn cael eu hannog i gynhyrchu rhagor o borthiant, tra gall prisiau gwrrtaith sy'n anos eu rhagweld, weithredu i gynyddu costau.

Mae prosiect APPLE yn ymdrin â'r sialensiau yma trwy weithredu technolegau bridio planhigion a genomeg yn gyfochrog â gwell technolegau ffenodeipio, yn y Ganolfan Ffenodeipio Planhigion Genedlaethol (NPPC) yn IBERS i wella effeithlonrwydd defnyddio maetholion mathau o rygwelwll parhaol a meillion gwyn.

Mae gwella'r defnydd o nitrogen (N) a ffosfforws (P) mewn systemau glaswelltir yn y Deyrnas Unedig trwy fridio planhigion wedi ei dargedu yn her o bwys ond mae hefyd yn creu cyfle sylweddol i fridwyr planhigion.

Bydd y prosiect hwn yn manteisio ar ganlyniadau ymchwil cynharach ar rygwelwll parhaol a meillion gwyn sydd wedi datblygu adnoddau genynnol a thechnolegau bridio newydd a fydd yn galluogi dewis ar gyfer gwell defnydd o faetholion mewn porthiant, gan arwain at fathau o rygwelwll parhaol a meillion gwyn sydd angen llai o N a P i bob uned o gynnwys sych, gan gynnig budd economaidd i gynhyrchwyr cynradd a manteision amgylcheddol.

Bydd y prosiect yn defnyddio NPPC i ddadansoddi effaith dethol ar sail effeithlonrwydd y defnydd o faetholion ar blanhigion unigol cyn cynhyrchu hadau a gwerthuso mewn profion maes. Bydd y germplasm gwell a ddatblygir yn cael ei ddefnyddio tu hwnt i'r prosiect gan Germinal Holdings Ltd. (GHL) i gynhyrchu mathau gorffenedig ac yn cael eu marchnata gan GHL yn y Deyrnas Unedig a thramor.



Meithrinfa Blanhigion



Dethol Planhigion yn NPPC



Cyfleuster Llifo Maetholion

Prosiect Parasitoleg

Mae llyngyr parasitig yn fygythiad mawr ac os nad ydynt yn cael eu monitro a'u trin yn briodol, bydd ymwrthedd anthelminitig yn datblygu. Dyma un o'r heriau mwyaf sy'n wynebu iechyd a phroffidioldeb y diwydiant defaid at y dyfodol.

Mae tri o Ffermydd Ffocws Cyswllt Ffermio wedi cyflwyno'r arfer o gyfrif wyau ysgarthol (FEC) i'w systemau rheolaeth am y tro cyntaf, ac yn elwa o ganlyniadau monitro baich llyngyr yn ofalus.

Y ffermydd yw:

RUSSELL AND RHYS EDWARDS - HENDRE IFAN COCH, PEN-Y-BONT

"Roeddem ni'n meddwl bob amser y byddai mamogiaid gyda lefel FEC isel wrth ddod dan do yn ddiogel rhag baich llyngyr am weddill y cyfnod ŵyna. Anogodd ein milfeddyg ni i gymryd sampl 2-3 wythnos cyn ŵyna a chawsom syndod i weld mamogiaid yn cario ŵyn sengl gyda 400 o wyau i bob gram (epg), mamogiaid yn cario gefeiliaid ar 665epg a thripledi ar 980epg! Yn y dyfodol, byddwn yn monitro ac yn trin mamogiaid yn ôl yr angen yn ystod y cyfnod ŵyna gan ein bod wedi gweld mai dyma yw'r amser pwysicaf."

GETHIN EVANS - RHOSGOCH, ABERYSTWYTH

Derbyniodd mwyafrif yr ŵyn driniaeth o gwmpas yr 22ain o Ebrill gan fod y cyfrif wyau ysgarthol (FEC) wedi dangos bod Nematodirus yn bresennol - a gan fod y FEC wedi dangos lefelau isel o wyau llyngyr, penderfynodd Gethin drin gan ddefnyddio drens gwyn. O ganlyniad, roedd Gethin yn falch bod 2 grŵp o ŵyn wedi llwyddo i fynd 9 wythnos heb fod angen triniaeth bellach - daeth syndod pellach wrth weld bod profion rheolaidd yn dangos bod cyfrifon yn lleihau heb driniaeth. Mae mwyafrif yr ŵyn bellach wedi cael eu gwerthu wedi'u pesgi sy'n dangos nad yw lleihau triniaethau wedi effeithio'n negyddol ar berfformiad.

BENNETTS - TYN-Y-PANT, WELSHPOOL


Profwyd sypiau o ŵyn yn ystod yr hydref y llynedd. Nid oedd baich llyngyr yn ddigon uchel i fod angen dos o driniaeth llyngyr yn yr hydref. Mae'r wybodaeth hon wedi arbed amser ac arian i'r ffermwr. Byddai'r arbediad ariannol yma, yn syml, yn gyfwerth ag oddeutu £285 (drensiso 1000 o famogiaid + un diwrnod 8 awr o hyd i 2 weithiwr am £10 yr awr).

DIWRNODAU AGORED

DYDDIAD	LLEOLIAD	CYSWLLT
31/08/2017	Hendre Ifan Coch, Pen-y-bont	Am ragor a fanylion, cysylltwch â: Menna Williams 01970 631405 / 07399 600146 menna.williams@menterabusnes.co.uk

Byw bywyd heb gloffni!

Cyfeirir at gloffni yn aml gan ffermwyr defaid Cymru fel un o'r prif sialensiau y maent yn eu hwynebu o ddydd i ddydd. Ond arweiniodd taelo'r afiechyd hwn at fanteision sylweddol o ran lles anifeiliaid a hefyd gwelliannau mewn lefelau cynhyrchu. Wrth lwc mae 'cynllun 5 pwynt' sydd wedi hen sefydlu ei hun i ymdrin â'r afiechyd hwn y mae ffermwyr trwy Gymru yn ei ddefnyddio yn gynyddol i wella cynhyrchiant a lleihau costau. Gan ystyried y technegau mwyaf effeithiol i drin ac atal mae'r 'cynllun 5 pwynt' ar y cyd â chynghor gan filfeddygon yn lleihau cyfartaledd y cloffni o 5% neu fwy i lai na 2%.



Wedi ei ddatblygu gan FAI Farms mae'r cynllun yn cynnwys yr argymhellion canlynol:

- ✓ Brechu
- ✓ Gwaredu troseddwyd cyson
- ✓ Osgoi cynyddu heintiad trwy gynllunio eu trin a chadw deunydd oddi tanynt yn sych
- ✓ Trin yn brydlon (cyn pen 3 diwrnod) gyda gwrthfotig addas
- ✓ Cadw'r anifeiliaid ar wahân gan gynnwys y rhai sy'n dod adref ar ôl gaeafu

Mae Cyswllt Ffermio yn gweithio gyda nifer o ffermydd i weithredu'r cynllun 5 pwynt ac mae rhai negeseuon allweddol wedi bod yn dod allan o'r gwaith hwn.

Profiad ar ffermydd o'r cynllun 5 pwynt

Dylid ceisio cynghor milfeddygol ar y dechrau i sicrhau bod y defnydd o wrthfotig yn briodol a'r dewisiadau o ran triniaeth
Nid yw gwaredu'r stoc na brechu ar eu pen eu hunain yn ddigon i ymdrin â'r afiechyd yn y blynyddoedd cynnar
Nid oes rhaid trimio i drin clwy'r traed
Efallai yn wir y bydd y gofyn am lafur yn uwch yn y 2 - 3 mis cyntaf ond unwaith y mae'r lefelau i lawr i 2% n eu lai mae llai o waith i'w wneud i atal cloffni yn y ddiadell

Ar yr adeg hon o'r flwyddyn mae'r rhan fwyaf o ddiadelloedd wedi diddyfnu'r mamogiaid a dyma'r amser delfrydol i ddechrau ar y cynllun 5 pwynt.

Mis 1	Mis 2	Mis 3.....
Gwaredu unrhyw famogiaid sy'n cael eu hadnabod fel rhai sy'n dioddef o gloffni o hyd	Canfod unrhyw famogiaid cloff a'u trin yn brydlon gyda gwrthfotig addas – peidiwch â thrimio	Canfod unrhyw famogiaid cloff a'u trin yn brydlon gyda gwrthfotig addas – peidiwch â thrimio
Gwaredwch unrhyw famogiaid sydd â thraed o siâp annaturiol iawn	Os yn bosibl cadw anifeiliaid cloff ar wahân nes byddant yn iawn	Os yn bosibl cadw anifeiliaid cloff ar wahân nes byddant yn iawn
Brechwch yn dilyn trafodaeth gyda'ch milfeddyg	Datblygwch strategaeth ar gyfer y rhai sy'n dioddef dro ar ôl tro e.e. '3 tro ac allan'	
Gofynnwch am gyngor eich milfeddyg os byddwch yn amau bod CODD* yn bresennol yn y ddiadell		

* CODD (dermatitis digidol heintus y defaid)


Monitro effeithlonrwydd trwy fesur ôl troed carbon ar Safle Arddangos Tyreglwys

Gan ddefnyddio cyfrifiannell ôl troed carbon fferm Prifysgol Bangor cynhyrchwyd ôl troed carbon Tyreglwys ar sail allyriadau carbon rhwng 01/04/16 a 31/03/17.

Roedd yn cynnwys y cyfrifiad ar gyfer allyriadau yn deillio o:


- Cynhyrchu mewnbynau'r fferm – yn uniongyrchol ac anuniongyrchol, fel gwrrtaith, deunydd dan anifeiliaid a dwysfwyd
- Allyriadau o'r holl brosesau ar y fferm, fel defnydd o ynni, allyriadau o dda byw, rheoli tail a phriddoedd

Mae'r siart cylch yn dangos sut y mae holl weithgareddau'r fferm yn cyfrannu at yr ôl troed carbon a mynegir y rheini fel elfennau cyfatebol i (CO₂e).



Isod mae graff yn cymharu'r ôl troed carbon yn y Deyrnas Unedig ar gyfartaledd am bob litr o laeth (kgCO₂e) â Tyreglwys;

Cymharu cyfartaledd y DU ag ôl troed carbon Trefeglwys fesul litr o laeth



Yr ôl troed carbon cyfartalog i bob hectar ar ffermydd laeth y Deyrnas Unedig yw 15,745kg CO₂e y flwyddyn, ôl troed carbon Tyreglwys i bob hectar oedd 13,382kg CO₂e y flwyddyn. Mae ffermydd hefyd yn amsugno CO₂ o'r amgylchedd felly mae'r cydbwysedd rhwng yr hyn sy'n cael ei allyrru a'r hyn sy'n cael ei ddal a'i storio yn arwain at lai o allyriadau yn gyffredinol fel y dangosir isod.

	kg CO ₂ e		
	Cyfanswm yr Allyriadau Carbon	Dal a Storio Carbon	Cydbwysedd Carbon
Ôl Troed Carbon	1,672,766	147,102	1,525,664

Mae cyfleoedd i lawer o ffermwyr leihau eu hallyriadau nwyon tŷ gwydr, er enghraifft:

- ✓ Gwella iechyd y fuches. Gall hyn gynhyrchu rhagor o laeth a lleihau allyriadau nwyon tŷ gwydr i bob litr. Gall hefyd gynyddu'r gobaith y bydd buchod yn byw yn hirach, gan leihau cyfraddau difa yn ogystal â chadw cyfraddau cyfnewid i lawr. Mae'n bosibl gwneud y mwyaf o gynhyrchiant trwy wella ffrwythlondeb, lleihau cloffni, lleihau mastitis a rheoli afiechydon heintus pan fydd hynny'n bosibl.
- ✓ Mae mwy o gynnyrch laeth i bob buwch yn golygu cynhyrchu llai o fethan am bob litr. Mae'n bosibl gwella'r cynnyrch trwy gael yr heffrod i loea yn 24-26 mis oed a rhoi porthiant o safon uchel iddynt.

Mae lleihau'r ôl troed carbon yn cael effaith fanteisiol amlwg ar yr amgylchedd ond yn bwysicach gall hefyd leihau costau mewnbynau trwy well effeithlonrwydd a thrwy hynny gynyddu proffidoldeb y busnes.

Patrymau Godro Effeithlon

Mae **Safle Ffocws Fferm Ffosyficwr** wedi gwerthuso eu patrymau godro fel rhan o brosiect gyda Cyswllt Ffermio. A hithau yn fferm organig, roedd gan Ffosyficwr ddiddordeb mewn cyflawni'r amcanion canlynol;

- ✓ lleihau amser godro
- ✓ lleihau'r niwed i flaenau'r tethi
- ✓ gostwng y nifer o achosion o fastitis
- ✓ cael llaeth o'r ansawdd gorau, mwy o gynnyrch a thrwy hynny mwy o werth
- ✓ lleihau costau ynni trwy well patrwm godro
- ✓ datblygu protocolau arfer gorau

Y cam cyntaf oedd cymharu defnyddio cadachau y gellir eu golchi gyda thyweli papur sych i sychu'r buchod cyn eu godro gyda'r nod o leihau Cyfanswm y Cyfrif Bacteria (TBC).

Roedd yr amser a dreuliodd yn golchi'r cadachau yn teimlo yn ormodol gan y partneriaid a gymerodd ran. O ganlyniad mae'r ffermwyr wedi dal ati i arbrofi ac maent wedi setlo ar batrwm lle mae tyweli papur yn cael eu rhoi mewn toddiant iodin cyn sychu'r anifeiliaid.

Trwy chwistrellu ar dywel papur a gwirio'r taenellid fe welwyd nad oedd y chwistrellwyr yn gorchuddio'r deth yn effeithiol felly prynwyd blaenau newydd am lai na £10.

Cofnododd mesurydd llaeth lif y llaeth o'r buchod a thynnodd hyn sylw at broblemau fel y clwstwr mewn safle gwael a gorodro a oedd yn achosi i lif y llaeth fod yn anghyson. Cynyddwyd y llif llaeth wrth dynnu'r clystyrau gyda'r nod o leihau'r niwed i flaenau'r tethi a chyflymu godro heb gael effaith niweidiol ar gynnyrch llaeth a chyfraddau mastitis.

Gwelwyd bod y mesuryddion llaeth wedi eu graddnodi'n anghywir o hyd at 15% a gan fod y dwysfwyd yn cael ei gyfrifo ar sail y darlleniadau roedd hyn yn achosi gorborthi a thanborthi. Ail raddnodwyd

y mesuryddion llaeth a chyfrifwyd bod yr arbediadau mewn dwysfwyd yn £30,345.

Mae canfod gwir achos mastitis trwy ddeall effaith y parlwr godro a'r drefn odro ar niwed i flaenau tethi yn gam ymlaen i leihau'r defnydd o wrthfotig ar y fferm.

Petai busnesau unigol yn cynnal profion tebyg ar offer godro a'u gweithdrefnau, gallent amlygu meysydd aneffeithiol a gallent wella ansawdd y llaeth, iechyd y gwartheg a phroffidioldeb.



Am ragor o wybodaeth ar sut all eich buses Fferm neu Goedwigaeth elwa o gefnogaeth busnes pwrpasol a chynghor technegol, cysylltwch a'n **Gwasanaeth Cynghori** ar **08456 000 813**.

FFLIW ADAR - Y FFEITHIAU

Mae'r ffliw adar yn afiechyd sy'n effeithio ar ddofednod gan gynnwys ieir, hwyaid a gwyddau.



MAE DAU FATH O FFLIW ADAR.

Ffliw adar tra phathogenaidd (HPAI) yw'r math mwyaf difrifol. Mae'n angheuol i adar yn aml iawn.

Prif arwyddion clinigol HPAI mewn adar yw:

Pen chwyddedig - gwawr las i'r gwddw a'r gwar - colli awch bwyd - anhawster anadlu fel pig ar agor, peswch, tisian, garglo, rhuglo - diarrhoea - llai o wyau - mwy yn marw

Gall yr arwyddion clinigol amrywio rhwng rhywogaethau adar a gall rhai rhywogaethau (*hwyaid a gwyddau er enghraifft*) ddangos ychydig iawn o arwyddion clinigol.

Mae Ffliw adar llai pathogenaidd (LPAI) yn llai difrifol fel arfer. Gall achosi problemau anadlu ysgafn, ond ni fydd yr adar sy'n dioddef yn dangos arwyddion clir o heintiad bob amser.

Mae difrifoldeb LPAI yn dibynnu ar y math o aderyn ac a oes unrhyw afiechyd arall yn bresennol.

Mae'r afiechyd yn lledaenu o aderyn i aderyn trwy gyswllt uniongyrchol neu trwy hylifau corfforol halogedig ac ysgarthion, gan achosi i adar fynd yn wael a marw. Gall gael ei ledaenu hefyd gan ddwysfwyd a dŵr wedi eu halogi neu gan gerbydau, dillad ac esgidiau budr. Gall y firws oroesi yn yr amgylchedd am o leiaf 50 diwrnod mewn amodau oer a llaith, ond nid yw'n cael ei gludo yn yr aer. Er mwyn ei ganfod yn gynnar rhaid cael goruchwyliaeth dda.

Mae bioddiogelwch da yn hanfodol i amddiffyn heidiau domestig rhag eu heintio. Dylai ceidwaid dofednod drafod bioddiogelwch gyda'u milfeddyg, ac ar y lleiaf dylent:

- ✓ Lanhau a diheintio esgidiau, dillad ac offer yn drylwyr cyn unrhyw gyswllt ag adar a'u siediau ac ar ôl hynny.
- ✓ Diogelu storffeydd bwyd a sicrhau bod y cyflenwad dŵr yn lân.
- ✓ Ar gyfer heidiau sydd allan, rhowch fwyd a dŵr mewn ardal wedi ei gorchuddio.
- ✓ Rhwystwrch unrhyw gyswllt uniongyrchol ac anuniongyrchol rhwng dofednod domestig ac adar gwyllt.
- ✓ Gwnewch yn siŵr bod ymwelwyr yn cadw at y protocolau bioddiogelwch.

Trwy gymryd y camau syml yma, gallwch helpu i ddiogelu lles adar, osgoi camau eraill i atal afiechyd i geidwaid dofednod eraill yn eich ardal ac osgoi cyfyngiadau trwy'r Deyrnas Unedig ar fasnach dramor. Bydd hyn yn helpu i ddiogelu swyddi a chefnogi'r diwydiant dofednod yn y Deyrnas Unedig.

Rhaid i geidwaid dofednod gadw golwg fanwl ar eu hadar am unrhyw arwydd o afiechyd, a rhaid iddynt gael cyngor yn brydlon gan filfeddyg os oes ganddynt unrhyw bryderon. Mae ffliw adar yn afiechyd y dylid hysbysu amdano ac os oes amheuaeth rhaid rhoi adroddiad i'r Asiantaeth Anifeiliaid Planhigion ac Iechyd ar 0300 303 8268. Mae rhagor o wybodaeth am yr afiechyd, gan gynnwys cyfarwyddyd ar fiolddiogelwch, ar gael gan Lywodraeth Cymru yma: <http://gov.wales/topics/environmentcountryside/ahw/disease/avianflu?skip=1&lang=cy>

Gwneud y gorau o'ch Mentor

Pan gafodd Eifion Pughe y cyfle i ffermio ar ei liwt ei hun yn 24 mlwydd oed, fe roddodd ei fryd ar greu busnes a oedd yn hyfyw'n economaidd i allu goroesi'r heriau sy'n wynebu ffermydd teuluol yng Nghymru.

Roedd dyhead Eifion i wella ar ei berfformiad o flwyddyn i flwyddyn ar ei ddaliad 145 erw yn Nhal-y-wern ger Machynlleth, angen egni ac uchelgais, yn ogystal ag arbenigedd technegol.

Aeth ati i dderbyn y cyngor, yr wybodaeth a'r gefnogaeth trwy amrywiaeth o gynlluniau, digwyddiadau a threialon Cyswllt Ffermio am y nesaf peth i ddim cost ariannol.

"Bydd angen i bob un ohonom fod yn fwy craff yn y modd yr ydym yn rhedeg ein busnesau felly os oes modd i mi gael mynediad at gyngor neu unrhyw beth arall am ddim a fydd yn gallu helpu fy musnes, byddai'n annoeth iawn i mi beidio â manteisio ar hynny," meddai Eifion, sydd ag agwedd broffesiynol tuag at ffermio.

"Rwy'n ceisio mynychu unrhyw ddigwyddiad Cyswllt Ffermio lleol sy'n berthnasol i'r hyn yr wyf yn ceisio ei wneud neu'n ystyried ei wneud ar y fferm gan fy mod yn cael llawer o wybodaeth werthfawr a allai arbed arian i mi."

Daw ychydig o'r arbedion ariannol o ganlyniad i'r arweiniad a dderbyniodd Eifion gan ei Fentor Cyswllt Ffermio, Meilir Jones, ffermwr da byw o Sir y Fflint a chyn Ffermwr Arddangos ar ran Cyswllt Ffermio.

Mae Eifion wedi gwerthu ei fuches sugno gan nad oedd yn ymarferol yn ariannol ac roedd ganddo sied wartheg yn wag.

"Holais i Meilir ddod draw fel mentor i roi syniadau i mi beth fyddai modd i mi ei wneud gyda'r sied ac i wella perfformiad."

Mae Eifion erbyn hyn yn magu lloi biff o'r fuches laeth hyd at isafswm o 120kg ar ran Dunbia trwy gynllun lloi laeth i wartheg biff y cwmni.

"Dangosodd Meilir i mi y byddai modd cynyddu fy elw o £10 y pen trwy gynyddu cynnydd pwysau byw dyddiol y lloi 0.1kg trwy fonitro'r porthiant yn fwy gofalus."

"Cynorthwyodd i mi edrych yn fanylach ar sut allai i wella perfformiad er mwyn ennill ychydig bach mwy."

Unwaith y bydd wed gorffen magu ei anifeiliaid, mae Eifion yn bwriadu ail lenwi'r sied gyda'i loi ei hun, a bydd yn eu gwerthu trwy Gynllun Biff Integredig Dunbia CFfl.

Gwnewch y gorau o'r wybodaeth helaeth sydd ar gael trwy ddysgu gan gymheiriaid. Gall ein rhwydwaith o **47** mentor ffermio a choedwigaeth ddarparu hyd at **22.5 awr** o gefnogaeth ac arweiniad.

Ewch i www.llyw.cymru/cyswlltffermio i gael mynediad at y **Cyfeirlyfr Mentoriaid** er mwyn dewis mentor, neu ffoniwch **08456 000 813**.

Osgoi Brexit 'caled' yw ein blaenoriaeth - merched mewn amaeth yng Nghymru yn amlinellu'r hyn sydd angen ei wneud wrth i'r diwydiant baratoi i adael Ewrop



Mae parhau i gael mynediad at y farchnad sengl, polisi hyfforddiant ac addysg wledig integredig a pheryglon lleihad mewn cefnogaeth ariannol i ffermwyr yn rhai o'r materion allweddol sy'n wynebu busnesau fferm yng Nghymru. Dyma rai o'r canfyddiadau allweddol a amlinellir mewn adroddiad newydd gan grŵp o dros 20 o ferched sy'n gweithio yn y diwydiant yng Nghymru a gyflwynwyd i Lesley Griffiths, Ysgrifennydd Cabinet dros yr Amgylchedd a Materion Gwledig, mewn cyfarfod arbennig a gynhaliwyd ar y 6ed o Orffennaf ym Mae Caerdydd.

Gyda chefnogaeth gan raglen Agrisgôp Cyswllt Ffermio, mae tri grŵp rhanbarthol o ferched deinamig llawn ffocws wedi bod yn cydweithio dros y flwyddyn ddiwethaf i gynhyrchu adroddiad a fydd bellach yn cyfrannu tuag at drafodaethau Llywodraeth Cymru gyda rhanddeiliaid allweddol eraill, ac a fydd yn dylanwadu'n uniongyrchol ar ddatblygu Polisi Amaethyddol i Gymru ar ôl Brexit.

Roedd Alice Lampard, yr arweinydd Agrisgôp a'r hyfforddwr a'r canolwr cymwys, a fu'n arwain grŵp y De Orllewin, yn pwysleisio ar bwysigrwydd galluogi ac annog merched er mwyn sicrhau bod eu lleisiau a'u barn yn cael eu clywed a'u gwerthfawrogi yn ystod y cyfnod hwn. *"Mae cyfle i Gymru arwain y gad mewn meddylfryd a datblygu polisiau yn nhermau'r*

Polisi Amaethyddol Prydeinig newydd a pholisi i Gymru fydd yn codi o ganlyniad i hynny ac yn eistedd ochr yn ochr â'r polisi Prydeinig.

"Mae'r adroddiad newydd hwn yn adnabod yr heriau sylweddol a fydd, heb os, yn ein hwynebu, gan amlinellu argymhellion ynglŷn â'r hyn y gallai'r diwydiant ei wneud i fanteisio ar y cyfleoedd a fydd hefyd, gobeithio, o fewn ein cyrraedd," meddai Ms. Lampard.

Crynowyd y pynciau trafod a dderbyniodd y sylw mwyaf dan saith pennawd penodol sef masnach; addysg; cefnogaeth ariannol; iechyd a lles anifeiliaid, themâu trawsbynciol gan gynnwys polisi cynllunio; band eang a gwasanaethau cefnogi gwledig; marchnata a deddfwriaeth.

Dywedodd yr arweinydd Agrisgôp, Sally Herdman, a fu'n arwain grŵp merched y De Ddwyrain, *"Bydd perthynas weithio agosach ynghyd â gwell cyfathrebu rhwng y diwydiant a Llywodraeth Cymru yn gatalydd er mwyn sicrhau bod Cymru'n cael ei gynrychioli wrth fwrdd negodi Llywodraeth y DU, ac rwy'n falch iawn bod Agrisgôp wedi gallu cefnogi'r grwpiau hyn a sicrhau bod safbwynt merched yn cael ei ystyried"*.

I ddarllen yr adroddiad 'Barn am Brexit' yn ei gyfanrwydd, ewch i www.llyw.cymru/cyswlltffermio



Amserlen Digwyddiadau

DYDDIAD	DIGWYDDIAD	LLEOLIAD	CYSWLLT
15/08/17 11:00-15:00	Gwella goroesiad moch bach	Pant Y Belliau	
23/08/17 19:00-21:00	Gwella Rheolaeth Hwch Fanwes	The Angelsey Arms Hotel, Mona Rd, Menai Bridge, LL59 5EA	Jodie Roberts 07985 379880 jodie.roberts@menterabusnes.co.uk
24/08/17 19:00-21:00	Gwella Rheolaeth Hwch Fanwes	The Ivy Bush Royal Hotel, 11 Spilman Street, Carmarthen, SA31 1LG	
24/08/17 14:00-17:00	Gwella effeithlonrwydd fferm trwy gwneud y defnydd gorau o laswellt a genetegau defaid	Nant yr Efail, Betws yn Rhos, Abergele, Conwy, LL22 8AL	Rhys Davies 07896 996841 rhys.davies@menterabusnes.co.uk
24/08/17	Digwyddiad Dom a Phridd	Gelli Aur College Farm, Golden Grove, Carmarthen, SA32 8NJ	
31/08/17 14:00-16:00	Mynd i'r afael â rheolaeth llyngyr a ffliwic mewn defaid	Hendre Ifan Coch, Blackmill, Bridgend, CF35 6EN	Menna Williams 07399 600146 menna.wiliams@menterabusnes.co.uk
04/09/17	Ffermio ar gyfer y dyfodol 19:00-21:30	Ysgol Bro Hyddgen, Machynlleth, SY20 8DP	08456 000 813 cyswlltffermio@menterabusnes.co.uk
05/09/17		Ysgol Uwchradd Y Trallwng, Trallwng, SY21 7RE	
07/09/17		Ysgol Uwchradd Aberhonddu, Aberhonddu, LD3 9SR	
11/09/17		Ysgol Syr Hugh Owen, Caernarfon, LL55 1HW	
12/09/17		Ysgol Maes Garmon, Yr Wyddgrug, CH7 1JD	
14/09/17		Gwesty Nantyllyn, Clunderwen, SA66 7SU	
14/09/17 14.30-18.30	Ychwanegu gwerth at Ucheldiroedd Cymru: bwyd, ffibr a'r amgylchedd	Pwllpeirian Research Centre, Cwmystwyth, Aberystwyth, SY23 4AB	Catherine Nakielny 07985 379890 catherine.nakielny@menterabusnes.co.uk
18/09/17 19:00-21:30	Ffermio ar gyfer y dyfodol	Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant, Llanbed, SA48 7ED	08456 000 813 cyswlltffermio@menterabusnes.co.uk
19/09/17	Merched Mewn Amaeth 10.00-16.00	Pentref Portmeirion	08456 000 813 cyswlltffermio@menterabusnes.co.uk
21/09/17		Castell Aberteifi	
27/09/17 10.45-14:00	Llo i Lloia	Coleg Llysfasi, Rhuthun, LL15 2LB	
26/09/17	Gweithdai Mentro: Deall y camau allweddol sy'n ymwneud â sefydlu Menter ar y cyd	Brecon Castle Hotel, LD3 9DB	Gwen Davies 01745 770039 gwen.davies@menterabusnes.co.uk
27/09/17		Welshpool Livestock Market	
03/10/17		Llety Cynin, SA33 4JR	
04/10/17		Feathers Hotel, SA46 0AQ	
10/10/17		Celtic Royal Hotel, LL55 1AY	
11/10/17		Ruthin Livestock Market	